**Meini Prawf Cyffredinol Marcio Modiwlau**

Mae'r meini prawf ffurflenni cymeradwyo modiwl hyn yn rhoi arweiniad i ysgolion ynglŷn â'r hyn sy'n rhaid ei gynnwys fel meini prawf marcio wrth gyflwyno modiwl newydd i'w gymeradwyo. Bwriedir y meini prawf hyn fel safonau 'sylfaenol' cyffredinol. Anogir ysgolion i addasu'r meini prawf er mwyn eu cysylltu mor agos â phosib ag asesiadau neilltuol. Er enghraifft, mewn modiwl gydag arholiad a chyflwyniad llafar, mae'n ymarfer da darparu meini prawf ar gyfer y ddau fath o asesiad. Nid oes angen i'r meini prawf fod mor fanwl â'r meini prawf a gyhoeddir yn y llawlyfr myfyrwyr/amlinelliadau modiwl ar-lein ond gall ysgolion ddewis cyflwyno meini prawf cyrhaeddiad modiwl yn y ffurflen fodiwl newydd.

**Rhagorol (Gradd A)**

Mae'r gwaith yn dangos gwybodaeth gynhwysfawr a dealltwriaeth fanwl, sy'n adlewyrchu astudiaeth gefndirol helaeth. Mae'r gwaith yn hynod bwrpasol, wedi ei strwythuro'n dda, wedi ei gyflwyno'n rhesymegol, a chefnogir y dadleuon. Mae'r gwaith yn cynnwys dehongli gwreiddiol a datblygir cysylltiadau newydd rhwng pynciau. Mae safon cyflwyno'r gwaith yn uchel gyda chyfathrebu cywir a dim gwallau ffeithiol neu gyfrifiannol.

**Da (Gradd B)**

Mae'r gwaith yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ond gyda rhai cyfyngiadau. Ceir tystiolaeth o astudio cefndirol. Mae strwythur pendant a rhesymegol i'r gwaith ond mae rhai gwendidau yn y ffordd y cyflwynir dadleuon. Ceir rhywfaint o ddehongli gwreiddiol a dangos cysylltiadau rhwng pynciau. Mae'r gwaith wedi ei gyflwyno'n ofalus gyda chyfathrebu cywir ac ychydig iawn o wallau ffeithiol neu gyfrifiannol.

**Llwyddo (Gradd C neu D ar Lefel 4-6: Gradd C ar Lefel 7)**

Mae'r gwaith yn dangos gwybodaeth am feysydd/egwyddorion allweddol yn unig ac ychydig o dystiolaeth sydd o wreiddioldeb neu o astudiaeth gefndirol. Mae'r gwaith yn cynnwys peth deunydd amherthnasol a gwendidau yn ei strwythur. Cyflwynir dadleuon ond nid oes dim cydlyniad rhyngddynt. Mae'r gwaith yn cynnwys gwallau ffeithiol /cyfrifiannol gyda fawr ddim tystiolaeth o ddatrys problemau. Mae gwendidau yn safon y cyflwyniad a'i gywirdeb.